**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**14 CHWEFROR 2018**

# ADRODDIAD GWYBODAETH GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## PENDERFYNU AR APÊL CYNLLUNIO

## FFERM WYNT PANT Y MAEN, LLYN BRÂN, BYLCHAU, DINBYCH

1. **PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Mae'r eitem hon yn darparu gwybodaeth i'r aelodau am benderfyniadau ar apeliadau cynllunio a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad fferm wynt arfaethedig ar dir i'r de orllewin o Nantglyn.

2. **CYNNWYS**

2.1. Mae'r adroddiad yn nodi:
- cefndir y cais cynllunio
- penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod rhoi caniatâd
- y broses apelio
- crynodeb o benderfyniadau Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i anghytuno ag argymhellion yr Arolygydd Apêl ac i ganiatáu'r apêl.

2.2. Er gwybodaeth, mae copïau o ddogfennau gyda phenderfyniadau ar y ddau brif apêl – Penderfyniad Ffurfiol Llywodraeth Cymru ac adroddiad yr Arolygydd Apêl yn amgaeedig fel atodiadau ar ddiwedd yr adroddiad.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1. Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

EMLYN GWYNEDD JONES

PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# FFERM WYNT PANT Y MAEN

## Cais Cynllunio 25/2015/0321

1. **Cefndir y penderfyniad**

   1.1. Cyflwynwyd y cais cynllunio ym Mawrth 2015 ar gyfer datblygu fferm wynt yn cynnwys 7 tyrbinau, gyda thrawsnewidwyr cysylltiol, llwybrau mynediad, is-orsaf, tŵr anemometreg ac isadeiledd ar dir yn ymyl Llyn Brân, Bylchau.

   1.2. Cyflwynwyd y cais am ganiatâd cynllunio llawn gyda nifer o adroddiadau technegol yn amgaeedig - Asesiad ar y Dull o Ymdrin â'r Effaith ar yr Amgylchedd; Dewis safle a dyluniad, Cefndir y Polisi a Buddion y Prosiect; Asesiadau Amgylcheddol Manwl gan gynnwys asesiad gweledol a thirlun; Asesiad ar economi gymdeithasol a thwristiaeth; hydroleg; daeareg a hydroddaeareg; ecoleg; adareg; sŵn a fflachiadau o gysgod; coedwigaeth; treftadaeth ddiwylliannol; traffig a chludiant; isadeiledd presennol ac effaith gweddilliol a lliniarol.

   1.3. Ystod eang o ymgynghori statudol ac anstatudol wedi'i wneud gan gynnwys adrannau mewnol o'r Cyngor, a chyda chyrff allanol gan gynnwys Cynghorau Cymuned Nantglyn, Llanrhaeadr a Dinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a CADW.

   1.4. Yn ogystal anfonwyd llythyrau i gymdogion yn yr ardal yn ymyl y safle, gosodwyd hysbysiadau safle o gwmpas y safle a hysbysebwyd y cais yn y wasg.

   1.5. Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan ddau Gyngor Cymuned lleol a 60 o unigolion preifat gwahanol. Y rhesymau dros y gwrthwynebiadau oedd:
   Egwyddor y Datblygiad
   Hanes cynllunio (wedi gwrthod fferm wynt ar y safle yn y gorffennol)
   Tirwedd ac effaith weledol
   Effaith y sŵn
   Effaith ecolegol
   Henebion hynafol
   Effaith ar dwristiaeth
   Priffyrdd
   Llifogydd
   Cyflenwad dŵr
   Gwrthdaro â pholisïau cynllunio

   1.6. Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ym Medi 2016. Nododd adroddiad y Swyddog y cynigion, ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd, ystyriaethau o ran deunyddiau, a materion oedd wedi codi

wrth i'r cais fynd rhagddo. Mae’r adroddiad yn sôn am bolisïau cynllunio a fabwysiadodd y Cyngor, polisi ac arweiniad Llywodraeth Cymru, y materion perthnasol yn codi o gais am fferm wynt a wnaed yn y gorffennol ar gyfer y safle a oedd wedi cael ei wrthod ac wedi mynd trwy broses apelio faith cyn penderfynu gwrthod y cais.

1.7. Mae’r adroddiad yn mynd ymlaen, o ganlyniad i'r ymatebion gan ymgyngoreion ‘technegol’ allweddol, bod y niwed a fyddai’n cael ei achosi o ran effaith ar y dirwedd / diddordebau gweledol ac amgylchedd hanesyddol yn sylweddol, ac ni ddylid ei orbwyso â’r gefnogaeth o’r egwyddor ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar lefel Llywodraeth Cymru a’r Cynllun Datblygu Lleol, a'r buddion penodol o ran ynni adnewyddadwy a fyddai'n cael ei gynhyrchu o’r cynllun 7 tyrbinau arfaethedig.

1.8. Trafodwyd y cais yn fanwl yn y Pwyllgor. Roedd siaradwyr cyhoeddus o blaid ac yn erbyn y cais. Mewn trafodaeth, fe gyfeiriodd aelod lleol i hanes y safle, y rhesymau yr argymhellir ar gyfer gwrthod y cais, ehangder y gwrthwynebiad yn lleol ac ymdeimlad ymysg y cyhoedd yn erbyn datblygu gan unigolion a chymunedau cymuned leol. Cynigwyd ac eiliwyd bod y cais yn cael ei wrthod ar sail y rhesymau yn adroddiad y Swyddog, gyda 23 yn pleidleisio yn erbyn y cynnig, 0 pleidlais o blaid y cynnig ac un yn ymatal pleidlais.

1.9. Tri rheswm dros wrthod oedd:

1. *Byddai datblygiad gyda 7 o dyrbinau ag uchder o 102 metr hyd at flaen y llafnau mewn drum o leoliad blaenllaw yn cael effaith annerbyniol ar olygfeydd Pedol yr Wyddfa o ben Moel Famau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gan ymestyn datblygiad tyrbinau o flaen rhan o’r olygfa sylweddol o brif gopaon Eryri. Ystyrir y byddai’r niwed yr achosai yn codi o ymyrryd ar yr olygfa bwysig yn genedlaethol yn annerbyniol ac i'r gwrthwyneb i brawf ii) o bolisi GEH 9 a pholisi GEH 2 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, ac ystyriaethau i’w hychwanegu i ddynodiadau tirwedd statudol ym Mhennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru 8.*

2. *Byddai effaith weledol o ganlyniad i’r tyrbinau arfaethedig yn annerbyniol gan ormesu ar eiddo preswylwyr yn yr ardal, ac ar y cyd â datblygiadau ffermydd gwynt arfaethedig a phresennol yn yr ardal a fyddai’n golygu y byddai'r gymuned leol yn ymddangos o fod wedi’i amgylchynu'n gynyddol â thyrbinau ar dir uchel i'r de ac i'r gorllewin. Ystyrir y byddai’r niwed yr achosai yn annerbyniol ac i'r gwrthwyneb i brawf ii) o bolisi GEH 9 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.*

3. *Mae’r datblygiad yn cael ei ystyried o gael effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol yn yr ardal, gan gynnwys y lleoliad a nifer yr henebion pwysig hanesyddol, ac wrth eu hystyried ochr yn ochr â chynlluniau arfaethedig ac sy’n bodoli eisoes yn yr ardal, byddai’n ychwanegu ar effeithiau andwyol cronnus sylweddol ar leoliad yr henebion defodol ac angladdol cyn- hanesyddol. Byddai’r niwed yr ystyrir yn cyfeirio at amgylchedd hanesyddol y rhan hwn o Gymru a byddai'n annerbyniol ac yn mynd yn groes i bolisi GEH 1 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych,*

*polisi Llywodraeth Cymru ac arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru 9 Pennod 6, ac yng Nghylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg.*

## 2. Y broses apelio

2.1. Yn dilyn hyn cyflwynodd yr ymgeiswyr apêl yn erbyn y penderfyniad o wrthod y cais. Dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio wrth Gyngor Sir Ddinbych ym Mawrth 2017 eu bod yn delio â'r apêl trwy ddefnyddio'r broses Sylwadau Ysgrifenedig.

2.2. Swyddogion wedi paratoi Datganiad Achos ar gyfer apêl gyda mewnbwn gan CADW a'r Aelod Lleol.

2.3. Hysbyswyd y Cyngor ym Mai 2017 bod Rheoliad 4 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chaniatâd Eilradd Penodedig) (Cymru) (Diwygiad) 2016 yn nodi bod adeiladu gorsaf gynhyrchu ynni gwynt ar y tir sy'n disgwyl bod â chymhwysedd (ar ôl ei adeiladu) sy'n cynhyrchu 10 megawat neu'n uwch o fod ag arwyddocâd cenedlaethol. Cadarnhawyd bod y cynnig apelio yn disgyn o fewn y categori hwn a bod 'Gweinidogion Cymru angen ail edrych ar yr apêl er mwyn dod i benderfyniad.' O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod Arolygydd wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru i ddelio â'r apêl ac y byddai adroddiad ac argymhellion yr Arolygydd yn cael eu pasio i Weinidogion Cymru i'w hystyried ac i wneud y penderfyniad terfynol.

2.4. Ymwelodd Arolygydd yr Apêl â'r safle ddiwedd mis Mehefin 2017.

## 3. Penderfyniadau Apeliadau

3.1. Hysbyswyd y Cyngor o benderfyniad yr apêl mewn llythyr dyddiedig 11 Ionawr 2018, wedi'i anfon yn enw Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.

3.2. Y dogfennau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

A. Adroddiad gan Arolygydd yr Apêl, yn argymell bod yr apêl yn cael ei wrthod.

B. Trafodaethau Gweinidogion Cymru yn crynhoi'r argymhellion gan Arolygydd yr Apêl a gwneud Penderfyniad Terfynol i **ganiatáu'r** apêl.

**Adroddiad yr Arolygydd**

3.3. Er gwybodaeth i aelodau, mae adroddiad Arolygydd yr Apêl yn ddogfen 54 tudalen sy'n mynd i fanylder sylweddol ar gyfer materion yr ystyrir yn berthnasol i'r apêl. Mae'n cynnwys adrannau sy'n delio â'r canlynol:

- Ystyriaethau Polisi Cynllunio - ar lefel lleol a chenedlaethol

Hanes Cynllunio - gan gynnwys cyfeirio at y cais blaenorol ar gyfer fferm wynt gyda 13 tyrbinau yn y lleoliad hwn (cyfeirir ato fel Gorsedd Bran), wedi'i wrthod gan Sir Ddinbych yn 2008, ac ar apêl yn 2009; a sail yr Arolygydd ar gyfer gwrthod yr apêl honno

- Cynigion apêl bresennol

- Achos y Cyngor

- Achos yr Apeliwr

- Cynrychiolaeth gan CADW, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill â diddordeb

- Amodau Cynllunio

Canlyniadau'r Arolygydd

Ystyriodd yr Arolygydd mai'r prif achosion yn apêl Pant y Maen oedd effaith y datblygiad ar:

- gymeriad y tirwedd ac amwynder gweledol yn arbennig cyfeirio at olygfeydd o Eryri o Moel Famau;
- amwynder preswyl i'r unigolion hynny sydd ag eiddo yn lleol o ran eu golygfeydd;
- lleoliad henebion rhestredig yn y cyffiniau lleol.

Mae paragraff yr Arolygydd sy'n cloi'r adroddiad yn crynhoi darganfyddiadau'r adroddiad ac wedi'u dyfynnu isod:

*Cydbwysedd Cynllunio*

194. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i gyflawni cynlluniau ynni adnewyddadwy er mwyn cwrdd â tharged Llywodraeth Cymru i greu ynni o adnoddau adnewyddadwy a byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyfrannu at y targed hynny. Tra bod NCT 8 yn cyfeirio datblygiadau o raddfa fawr at yr AChS a bod yna amcan digrybwyll i dderbyn newid sylweddol yng nghymeriad tirwedd,

mae'n cydnabod nad yw'r holl dir o fewn AChS yn addas yn amgylcheddol ar gyfer cynnig pŵer gwynt sylweddol. Yn ogystal mae gan yr AChS gymhwysedd amgylcheddol penodol, er y mae’r dystiolaeth yn nodi na fyddai’r datblygiad yn cyflawni'r lefelau mwyafswm a fyddai’n rhagori ar AChS-A.

195. Mae angen cael cydbwysedd rhwng y buddion o gynhyrchu trydan o wynt adnewyddadwy ar y tir a’r effeithiau y nodwyd y byddai’r cynllun yn ei gael ar y dirwedd ac amwynder gweledol, amwynder preswyl, gosodiad henebion rhestredig a materion eraill sy’n codi o’r dystiolaeth.

196. Rwyf wedi dod i’r casgliad y byddai’r datblygiad yn achosi niwed i’r dirwedd ac amwynder gweledol, ac wrth ddod i’r casgliad hwn rwyf wedi cymryd i ystyriaeth yr amcan digrybwyll i dderbyn newid sylweddol i gymeriad tirwedd yr AChS. O ran amwynder preswyl rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn cael effaith gormesol annerbyniol ar yr olygfa o'r Sportsman’s Arms. Fodd bynnag, mae'n eiddo sy'n ymwneud ag arian a byddai effaith y datblygiad ar amwynder preswyl ddim yn gwneud yr eiddo yn anaddas i fyw ynddo, a fyddai’n lleihau pwysau’r nodwedd yn erbyn y cynnig.

197. Er bod NCT 24 yn glir y dylid pwyso'r budd cyhoeddus o weithredu i leihau allyriad carbon, neu i addasu i’r effaith o newid hinsawdd yn erbyn unrhyw niwed i arwyddocâd yr asedau hanesyddol, rwyf o'r farn bod y niwed sylweddol i osodiad nifer o henebion rhestredig yr wyf wedi eu nodi yn cario pwysau sylweddol yn erbyn yr apêl.

198. Rwy’n fodlon y gellir cyfeirio’n foddhaol at yr ystyriaethau cynllunio eraill a godwyd trwy amodau cynllunio.

199. Wrth bwyso a mesur ac ystyried y buddion cadarnhaol o ynni adnewyddadwy a lleoliad y safle o fewn AChS-A nid yw’n ddigonol i anwybyddu’r niwed y byddai’n ei gael ar y dirwedd a’r amwynder gweledol, amwynder preswyl a niwed i’r amgylchedd hanesyddol. Mae’r dystiolaeth yn fy mherswadio bod y balans ddim o blaid yr apêl ac ar sail hynny rwy’n ystyried y dylid diystyru’r apêl.

**Argymhelliad**

200. Ar gyfer y rhesymau a nodwyd uchod, ac o fod wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, rwyf yn argymell bod yr apêl yn cael ei ddiystyru.

3.4 **Penderfyniad ffurfiol Gweinidogion Cymru**

Mae dogfen y Gweinidogion yn rhoi crynodeb hir o Adroddiad yr Arolygydd ar yr Apêl a'r argymhelliad yw diystyru'r apêl. Mae adran Penderfyniad Ffurfiol yr adroddiad yn cynnwys 11 o baragraffau, dwy dudalen o hyd ac wedi'u dyfynnu isod:

**Penderfyniad ffurfiol**

53. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel ac mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ein bod angen cymryd i ystyriaeth y buddion a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach o ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Yn yr achos hwn rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried y materion perthnasol yn llawn, fodd bynnag, nid wyf yn cytuno gyda'r pwysau a roddwyd gan yr Arolygydd ar y buddion o gynyddu cyflenwad ynni adnewyddadwy trwy'r cynnig hwn.

54. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r system gynllunio i wneud y mwyaf o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac yn cydnabod bod y buddion o ynni adnewyddadwy yn rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

55. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn nodi yn y tymor byr i'r tymor canolig, bod ynni gwynt yn parhau i gynnig y potensial mwyaf ar gyfer cyflawni ynni adnewyddadwy a'r angen ar gyfer ynni gwynt yn rhan allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y dyfodol. Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy yn adnabod 7 Ardaloedd Chwilio Strategol fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiad gwynt ar raddfa fawr. Mae'r tyrbinau gwynt arfaethedig sy'n ffurfio rhan o'r cynllun apêl i gyd wedi'u lleoli o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol yng Nghoedwig Clocaenog. Polisi GEH 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi datblygiad gwynt ar y tir ac yn nodi datblygiadau ar raddfa eang yn yr Awdurdod Lleol (wedi'i diffinio o fod gyda chymhwysedd cynhyrchu rhwng 5MW a 25MW) ond yn cael eu caniatáu yn Ardaloedd Chwilio Strategol yng Nghoedwig Clocaenog lle nad ydynt yn niweidio datblygiad cynlluniau strategol/graddfa fawr ac yn amodol ar asesiad manwl o effeithiau lleol. Byddai gan ddatblygiad arfaethedig y cymhwysedd posib o greu cyfanswm o 17.5MW ac felly yn disgyn yng nghategori Graddfa Eang yr Awdurdod Lleol.

56. Ni fyddai'r cynnig yn niweidio datblygiad cynlluniau strategol/graddfa fawr gan fod caniatâd datblygu wedi'i roi yn 2014 ar gyfer fferm wynt yn Ardal Chwilio Strategol yng Nghoedwig Clocaenog gydag allbwn trydanol gros o hyd at 96MW a fyddai'n cynnwys hyd at 32 tyrbinau. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y cynllun y flwyddyn nesaf.

57. Mae'r Arolygydd yn nodi mai'r cymhwysedd gosodiad mwyaf ar gyfer ynni gwynt yn AChS Clocaenog yw 212MW. Mae'r Arolygydd yn cadarnhau bod y dystiolaeth yn nodi na fyddai'r cynllun apêl yn golygu

y byddai’r cymhwysedd gosodiad ar gyfer y lefelau mwyaf yn AChS Clocaenog yn cael eu rhagori.

58. O ystyried y cyd-destun hwn mae’r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi cadarnhad ysgrifenedig i’r Arolygydd ei bod yn derbyn yr egwyddor o gael fferm wynt yn y lleoliad yn amodol ar ystyriaeth fanwl o effaith y datblygiad yn lleol.

59. Felly, ystyrir bod lleoliad y fferm wynt arfaethedig yn dderbyniol mewn egwyddor. Fel y mae’r Arolygydd yn cydnabod, p'un ai fod y caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer y cynnig mae’r cyfan yn dibynnu ar beth fyddai’r buddion o gynhyrchu trydan o wynt adnewyddadwy ar y tir ac effeithiau dynodedig y cynllun ar y dirwedd ac amwynder gweledol, amwynder preswyl, gosodiad Henebion Rhestredig a materion eraill yn codi o’r dystiolaeth.

60. Rwy’n ystyried buddion y cynnig o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle wedi’i lleoli yn yr AChS fel ystyriaethau materol sydd yn ddigonol i orbwyso effeithiau dynodedig y cynllun ac mae'r cydbwysedd felly yn pwyso o blaid yr apêl.

61. Felly, rwy’n anghytuno gydag argymhelliad yr Arolygydd. Trwy ddefnyddio’r pŵer fel y cyfeirir ym mharagraff 2 o’r llythyr penderfyniad hwn rwyf felly yn caniatáu apêl eich cleient ac yn dyfarnu caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu a gweithredu fferm wynt yn cynnwys 7 tyrbinau gwynt ynghyd â thrawsnewidwyr, llwybrau mynediad, is-orsaf ar y safle, tŵr anemometreg ac isadeiledd adeiladwaith a gweithredu cysylltiedig (Cyf: 25/2015/0321).

62. Nodaf bod yr Arolygydd yn cyfeirio at Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Y DU mewn gosod cyd-detun y polisi ar gyfer apêl (IR27), fodd bynnag, tydi'r datganiadau hyn ddim yn ffurfio rhan o fframwaith y polisi lle bydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

63. Wrth ddod i’r penderfyniad hwn rwy’n nodi’r ddyletswydd i weithredu datblygu cynaliadwy o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac rwy’n ystyried bod y penderfyniad yn cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy wedi’i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf LlCD 2015 ac amcanion lles Gweinidogion Cymru bydd y penderfyniad yn “gyrru twf cynaliadwyedd ac yn brwydro newid hinsawdd” gan gynyddu faint o ynni gwynt adnewyddadwy y cynhyrchir yng Nghymru.

**EMLYN GWYNEDD JONES**
**PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**